SKSLC8W
Cydymffurfio â rheoliadau darlledu i ddiogelu'r rhai dan ddeunaw oed

Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â rheoliadau darlledu yn y DU sy'n ymdrin â'r egwyddor o ddiogelu'r rhai dan ddeunaw oed rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus.

Mae hefyd yn cynnwys cyfrifoldebau darlledwyr wrth ymwneud â'r rhai dan ddeunaw oed sy'n cymryd rhan neu'n cael eu cynnwys fel arall mewn rhaglenni.

Mae'r Safon yn golygu gwybod beth yw'r cynnwys perthnasol yng Nghod Darlledu Ofcom, a lle y bo'n berthnasol yng Nghanllawiau Golygyddol y BBC.

Er mai dim ond i wasanaethau radio a theledu y mae'r rhan fwyaf o reoliadau Ofcom yn berthnasol, mae'r rhan fwyaf o ddarlledwyr yn cymhwyso'r rheoliadau a'r canllawiau i'w cynnwys darlledu ar bob llwyfan

SKSLC8W
Cydymffurfio â rheoliadau darlledu i ddiogelu'r rhai dan ddeunaw oed

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 diffinio'r term "cyd-destun", yn cynnwys yr amrywiol ffactorau gwahanol sy'n cyfrannu at hyn o ran cydymffurfiaeth rhaglenni

P2 esbonio'r termau "plant" a "pobl ifanc" fel y'u defnyddir yng nghyd-destun cydymffurfiaeth rhaglenni

P3 dangos dealltwriaeth o'r termau 'trothwy' ar gyfer teledu ac 'amseroedd pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando' ar gyfer radio, a'u harwyddocâd

P4 er mwyn diogelu'r rhai dan ddeunaw oed, cydnabod y meysydd pwnc sensitif hynny lle mae angen cymryd gofal arbennig wrth eu trin a'u hamserlennu

P5 gan ystyried y cyd-destun, asesu'n gywir pryd y gallai eich gweithgareddau a'r cynnwys yr ydych yn ei gynhyrchu arwain at broblemau cydymffurfiaeth mewn perthynas â Chod Darlledu Ofcom, neu lle y bo'n berthnasol, Ganllawiau Golygyddol y BBC, a nodi pryd y mae angen i chi geisio cyngor arbenigol

P6 defnyddio'r cysyniad o gyd-destun i gyfiawnhau cynnwys deunydd a allai fod yn sensitif mewn rhaglen

P7 nodi ble i gael gwybodaeth am gynulleidfaoedd yn eich sefydliad chi

P8 sicrhau y telir sylw dyladwy i ofalu am les corfforol ac emosiynol ac urddas pobl dan ddeunaw oed sy'n cymryd rhan neu'n cael eu cynnwys fel arall mewn rhaglenni

P9 9) pan fo angen, cael cyngor o ffynonellau priodol

SKSLC8W
Cydymffurfio â rheoliadau darlledu i ddiogelu'r rhai dan ddeunaw oed

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 y rheolau a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â diogelu'r rhai dan ddeunaw yng Nghod Darlledu Ofcom a, lle y bo'n berthnasol, yng Nghanllawiau Golygyddol y BBC

K2 ystyr y term "cyd-destun" fel yr amlinellir yng Nghod Darlledu Ofcom

K3 pwysigrwydd cyd-destun wrth ffurfio barn greadigol a golygyddol mewn perthynas â Chod Darlledu Ofcom a, lle y bo'n berthnasol, Ganllawiau Golygyddol y BBC

K4 y gwahaniaeth rhwng "pobl ifanc" a "plant" at ddibenion rheoliadau darlledu

K5 ystyr y termau 'trothwy' ar gyfer teledu, ac 'amseroedd pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando' ar gyfer radio, fel y nodir yng Nghod Darlledu Ofcom

K6 y ffynonellau data cynulleidfaoedd sy'n berthnasol i'r cynnwys yr ydych yn ei greu, neu i'r corff yr ydych yn gweithio iddo.

K7 y meysydd pwnc sensitif hynny lle ceir rheolau penodol pan fydd plant yn neilltuol o debygol o fod yn rhan o'r gynulleidfa, yn cynnwys darlledu gwybodaeth neu sylwadau am:

- P7.1 droseddau sy'n cynnwys y rhai dan ddeunaw oed
- P7.2 sylweddau meddwol
- P7.3 trais
- P7.4 iaith dramgwyddus
- P7.5 rhyw, noethni a chynnwys ar gyfer oedolion
- P7.6 yr ocwlt a'r goruwchnaturiol

K8 y rheolau penodol sy'n ymwneud â'r rhai dan ddeunaw oed sy'n cymryd rhan neu'n cael eu cynnwys fel arall mewn rhaglenni

K9 pryd i geisio cyngor ar gydymffurfiaeth â Chod Darlledu Ofcom neu Ganllawiau Golygyddol y BBC

K10 lle i gael cyngor o'r fath yn eich sefydliad chi, yn cynnwys y dyfarniadau diweddaraf ar gwynion

SKSLC8W
Cydymffurfio â rheoliadau darlledu i ddiogelu'r rhai dan ddeunaw oed

Gwybodaeth ychwanegol

Cysylltiadau â SGC eraill

Rhaid darllen y Safon hon ar y cyd â:
LC2 Gweithio'n effeithiol o fewn y fframwaith rheoleiddio darlledu, sy'n rhoi trosolwg cyffredinol o ofynion y fframwaith rheoleiddio ar gyfer darlledu yn y DU; a
LC9 Cydymffurfio â rheoliadau darlledu ar osgoi niwed a thramgwydd, y mae cysylltiad agos rhyngddi â'r Safon hon.

SKSLC8W
Cydymffurfio â rheoliadau darlledu i ddiogelu'r rhai dan ddeunaw oed

Datblygwyd gan	Skillset
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Medi 2010
Dyddiad adolygu a awgrymir	Medi 2012
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skillset
RCU gwreiddiol	LC8
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi; Cyfryngau a Chyfathrebu; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol y Cyfryngau
Cyfres/Set	Y Gyfraith a Chydymffurfiaeth ar gyfer Darlledu
Geiriau Allweddol	Y gyfraith, cydymffurfiaeth, darlledu, hawlfraint, hawliau eiddo deallusol, diogelu data, codau a chanllawiau rheoleiddio, codau moesegol, gweithdrefnau cwyno ac atebolrwydd, rheoliadau darlledu